**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 12 Ebrill 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | P R Hood-Williams |
| L James | M H Jones | P K Jones |
| J W Jones | I E Mann | B J Rowlands |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Emily-Jayne Davies | Swyddog Craffu |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Trawsnewid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cyng. Andrew Stevens

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid, a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2021, yn gofnod cywir.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Adroddiad Blynyddol Cwynion Corfforaethol**

Daeth Sarah Lackenby, Prif Swyddog Trawsnewid, i'r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar Gwynion Corfforaethol ac ateb cwestiynau.

Cynhaliodd y panel drafodaeth fer am yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag argaeledd yr adroddiad, a'r data ynddo, ac fel yr oedd y pandemig yn effeithio arno. Tynnwyd sylw'r panel at y ffaith bod yr adroddiad hwn yn hwyr yn dod i'r Pwyllgor Craffu oherwydd yr effeithiau anochel hyn, ar y gweithlu ac ar adnoddau. Deallodd y panel fod y data hwn, felly, braidd yn hen ac roeddent yn edrych ymlaen at drafodaeth lawn ar y pwnc hwn pan fydd yr adroddiad nesaf ar gael.

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

- Effeithiau'r pandemig ar adrodd am ddata perthnasol – fel gweithredu cyfyngedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a diffyg cwynion a gyflwynwyd yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth – roedd y panel wedi gofyn o'r blaen am wybodaeth am gost swyddogion a oedd yn prosesu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Clywodd y panel fod hon yn amrywio a bod cadw taflenni amser wedi bod yn anodd, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r cyngor yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o fesur hyn yn y dyfodol.
- Roedd swyddogion am i'r panel fod yn ymwybodol o'r pwyntiau canlynol, yr eir i'r afael â hwy yn yr adroddiad nesaf:
  - Mae'r tîm cwynion wedi cael hyfforddiant ombwdsmon eleni (2020/21)
  - Mae system TG newydd yn cael ei rhoi ar waith, a fydd yn hybu monitro perfformiad yn well ac yn helpu swyddogion i fewngofnodi a monitro achosion.
  - Mae'r cyngor wedi adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau cwyno yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019.
  - Mae gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ofynion adrodd newydd ynghylch cwynion. Mae'r cyngor yn gweithio gyda'r Swyddog Monitro ar hyn, a bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn yn yr adroddiad nesaf.
- Nid yw'r adroddiad hwn yn dangos unrhyw dueddiadau mawr sy'n peri pryder - mae nifer y cwynion Cam 1 a Cham 2 wedi gostwng o'u cymharu â 2018/19.
- O ran cwynion yng nghyd-destun y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant) mae proses wahanol ar gyfer ymdrin â'r achosion hyn a gall y cyngor gyflogi ymchwilydd annibynnol.
- Oedolion; Roedd cyfiawnhad dros 19% o gwynion, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol
- Plant; Roedd cyfiawnhad dros 25% o gwynion, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Dilëwyd ffi o £10 am Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth felly mae'r cyngor yn disgwyl gweld cynnydd mewn ceisiadau, fodd bynnag, gwelwyd llai. Mae swyddogion yn credu y bydd hyn yn cynyddu yn y dyfodol ac mae ceisiadau'n mynd yn fwy cymhleth, gan gyffwrdd â rhagor o feysydd gwasanaeth.
- Mae hyfforddiant gloywi wedi'i gynnal gyda swyddogion Rhyddid Gwybodaeth ac ynghylch adolygiadau Rhyddid Gwybodaeth.

**CYTUNWYD** y dylai aelodau ofyn am ragor o wybodaeth am feini prawf yr Ombwdsmon ynghylch achosion y gellir ei *cyfiawnhau* ac achosion *ni ellir eu cyfiawnhau*. Cytunodd swyddogion y byddai rhagor o fanylion yn cael eu hanfon at y panel am y dosbarthiadau hyn. Gofynnodd yr aelodau hefyd am ragor o wybodaeth am yr achosion (4 allan o 93) a gafodd eu datrys yn gynnar.

Manteisiodd y panel ar y cyfle i gydnabod ymdrechion staff, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o'r cyfyngiadau symud. Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y data a oedd ar gael. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn.

6 **Cynllun Gwaith 2020-21**

I'w drafod yn fanwl yn y cyfarfod nesaf ar 10 Mai.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.31 am